**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 25 Mawrth 2025 yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Anthony Eynon, Anthony Jenner, Ffion John, Julian Williams, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Tudur Lewis, Rebecca Jaimangal-Jones, Dennis Jones, Michael Fussell

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod. Dymunwyd yn dda i TL am wellhad buan.

2. **Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 28/1/2025:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 28/1/25 yn gywir gan AJ ac eiliwyd gan FfJ.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- **Cam gweithredu 1: JM i wahodd Rheolwr Prosiect Perthyn i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i roi mwy o wybodaeth am y cynllun**
  - Adroddwyd bod Cris Tomos wedi rhoi gwybodaeth i'r Cyngor am y Cynllun Perthyn yn y cyfarfod a gynhelwyd 18/3/25. Mae'r cynllun yn ailagor eto ym mis Ebrill ac mae grantiau o £10 mil ar gael i sefydlu busnes sy'n gallu dangos ei fod yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd JM yn rhoi gwybod i'r Grŵp Hanes Lleol am y grant hwn.

- **Cam gweithredu 2: JM i ymchwilio ymhellach i'r grant hybiau diogel a chynnes**
  - Bydd JM yn parhau i ymchwilio i'r grantiau hyn

- **Cam gweithredu 3: JM i drefnu cyfarfod gydag ymddiriedolwyr Capel Hebron a'r Cyngor ar ôl yr hanner tymor, ar Nos Fawrth am 7yh yng Nghaffi Beca a gwahodd Cris Tomos hefyd i'r cyfarfod hwn.**
  - Cynhelwyd y cyfarfod ar 18/3/25 gyda Bethan Rilstone, John Lewis ac Alun Evans yn bresennol ac roedd Cris Tomos hefyd yn bresennol hefyd. Rhoddodd BR ddiweddariad am y sefyllfa bresennol ynglyn â Chapel Hebron a dywedodd bod y mater yn nwylo eu cyfreithwyr ar hyn o bryd.
  - Cynghorodd CT mai ffurfio Ymddiriedolaeth y Fynwent fyddai'r opsiwn gorau, yn cynnwys 3 aelod o Hebron a 2 neu 3 aelod o'r Cyngor a byddai'r ddwy fynwent o dan ymbarél yr ymddiriedolaeth hon. Byddai angen cael Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd.
  - Bydd Hebron yn cadw mewn cysylltiad.
  - Roedd y Cyng DP wedi trafod gyda JLewis bod gan grŵp lleol ddiddordeb i brynu'r capel. Bydd y capel yn cael ei werthu drwy ocsiwn a bydd gan bawb gyfle i'w brynu. Dywedodd y Cyng DP hefyd bod y cyfreithwyr Ungoed Thomas, Caerfyrddin yn delio gyda materion fel hyn.
  - Mae JM wedi trefnu cael sgwrs ffôn gyda chlerc Llanismel ddydd Gwener gan for Cyngor Cymuned Llanismel wedi cymryd drosodd mynwend yn ddiweddar.
  - **Cam gweithredu: JM i roi diweddariad am ei sgwrs gyda chlerc Llanismel ynglyn â chymryd drosodd mynwent yn y cyfarfod nesa.**

- **Cam gweithredu 4: JM i anfon y ffurflen gais am gymorth ariannol i'r Cardi Bach i'w llenwi yn unol â'r broses newydd**
  - Dywedodd JM bod Y Cardi Bach wedi anfon ei ffurflen gais am gymorth ariannol ac wedi gwneud cais am £500. Cadarnhawyd y bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried ym mis Tachwedd.

- **Cam gweithredu 5: JM i anfon y ffurflen gais am gymorth ariannol i'r Eisteddfod Genedlaethol i'w llenwi**
  - Dywedodd JM bod Gwenllian Carr o'r Eisteddfod Genedlaethol wedi cadarnhau y byddan nhw'n llenwi'r ffurflen cais am gymorth ariannol.

- **Cam gweithredu 6: FfJ a JM i gysylltu ag Eurfyl Lewis i drafod trefnu'r cyfarfod cychwynnol ar gyfer sefydlu pwyllgor apêl, i'w gynnal o bosib yn Ysgol Beca neu Caffi Beca a gwahodd aelodau o gymuned yr ysgol, cylch meithrin Ffynnonwen, Canolfan Ffynnonwen, Merched y Wawr, Hoelion Wyth, WI, Clwb Hanes a chapeli'r ardal i fod yn rhan o'r pwyllgor apêl**
  - Cadarnhawyd bod cyfarfod cyntaf Pwyllgor Apêl Efailwen, Llanglydwen, Login a Chwmeils wedi cael ei drefnu ar gyfer nos yfory Nos Fercher 26/3/25 am 6.30yh yng Nghaffi Beca. Mae'r cyfarfod wedi cael ei hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, ar ein hysbysfwrdd ac mae poster wedi cael ei anfon at Ysgol Beca, Merched y Wawr Beca, Hoelion Wyth Beca, Nebo, Calfaria Login, Cwmeils, Canolfan Ffynnonwen, Cylch Ti a Fi.
  - Dywedodd JM bod disgwyl i gynghorau cymuned a thref wneud tri chyfraniad; un eleni (24/25), un y flwyddyn nesa (25/26) ac un y flwyddyn ganlynol (26/27) er mwyn helpu'r apêl lleol. Target Efailwen, Llanglydwen, Login a Chwmeils yw £7K.
  - Mynychodd FfJ a JM gyfarfod Cronfa Leol Eisteddfod y Garreg Las ar Nos Iau 20/2/25fed arlein a oedd yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am sefydlu pwyllograu apêl. Dyma'r prif bwyntiau:
    - mae 11 ardal i gyd ar draws Sir Benfro, Gorllewin Sir Gâr a De Ceredigion. Mae pwyllgor apêl Efailwen, Llanglydwen, Login a Chwmeils o fewn ardal Hendygwyn.
    - mae angen codi £400,000 o fewn 16 mis. Mae £41 mil wedi cael ei godi yn barod, sef 10%.
    - mae 110 o gynghorau cymuned yn y nhalgylch Eisteddfod Y Garreg Las ac mae £18 mil wedi dod i mewn o gynghorau cymuned yn barod.
    - mae'r Eisteddfod yn edrych am noddwyr i wobrau'r gwahanol gystadlaethau ar hyn o bryd.
    - mae Grwp Facebook Digwyddiadau Eisteddfod y Garreg Las wedi cael ei chreu lle mae pob ardal a phwyllgor apêl yn gallu hysbysebu eu gweithgareddau.
    - mae 'Gift Aid' yn beth da iawn i wneud os yn gofyn i bobl roi achos byddwn ni'n cael 25% ar ben y rhodd.

- **Cam gweithredu 7: JM i arddangos hysbysiad cwblhau archwiliad a'r hawl i archwilio ar wefan, tudalen Facebook a'r hysbysfyrddau**
  - Cadarnhaodd JM bod hysbysiad cwblhau archwiliad 2023-24 wedi cael ei roi ar hysbysfwrdd y Cyngor yng Nglandy Cross, ar ein tudalen Facebook ac ar ein gwefan yn rhoi cyfle i'r cyhoedd o ofyn i weld ein cyfrifon. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau hyd yn hyn.

- **Cam gweithredu 8: Cyng DP i rannu'r e-bost am y bwriad i newid ffonau i rai digidol gyda phawb. Y wybodaeth hon i gael ei chynnwys ar wefan y Cyngor gyda'r dolenni priodol**
  - Mae'r Cyng DP wedi rhannu'r ebost a bydd JM yn ei anfon ymlaen at bawb a'i roi ar wefan y Cyngor.

- **Cam gweithredu 9: JM i ddrafftio Polisi Rheoli Risgiau a Pholisi Diogelu erbyn y cyfarfod nesa**
  - Anfonodd JM gopïau o'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a Pholisi TGCh a Chynhwysiant Digidol at bawb mewn e-bost. Cymeradwyodd y Cyngor y ddau bolisi. Bydd JM yn drafftio'r Polisi Rheoli Risgiau a'r Polisi Diogelu cyn gynted.

- **Cam gweithredu 10: JM i baratoi drafft o'r adroddiad bioamrywiaeth erbyn cyfarfod mis Mai**
  - Dywedodd JM ei bod yn ofynnol i bob Cyngor Cymuned a Thref adrodd ar sut maen nhw wedi cwrdd â gofynion statudol y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecoystemau (Adran 6 - Deddf yr Amgylchedd 2016). Dylai'r adroddiad gynnwys yr holl gamau a gymerwyd gan y Cyngor dros y cyfnod 3 blynedd a'i gyhoeddi ar y wefan erbyn diwedd 2025. Bydd JM yn mynychu gweminar gan Un Llais Cymru ar 14/4/25 a fydd yn rhoi cyngor a chanllawiau ar sut i gwblhau'r adroddiad.

- **Cam gweithredu 11: JM i ddrafftio taflen 'cadw mewn cysylltiad mewn argyfwng' a'u rhannu gyda'r aelodau am eu sylwadau**
  - Bydd JM yn gofyn i glerc Llanismel ynghylch sefydlu rhestr o bobl bregus a sut mae mynd ati a beth sydd angen ystyried, yn enwedig yr agweddau diogelu.

- **Cam gweithredu 12: DP i ofyn i'r Cyngor Sir edrych ar y coed sy'n hongian dros y ffyrdd: ar bwys Coedllys i'r cyffordd; mae un ar y ffordd rhwng Efailwen a Glandy Cross**
  - Cadarnhaodd y Cyng DP ei fod wedi gofyn i'r Cyngor Sir ynghylch mater. Os yw'r coed yn hongian allan ar y ffordd yna bydd y Cyngor Sir yn delio â hyn ond os yn gorwedd ar yr ochr, cyfrifoldeb y perchennog tir yw eu clirio.

- **Cam gweithredu 13: Y Cyngor i gadarnhau'r Cadeirydd yng nghyfarfod Mawrth**
  - Hoffai RJJ aros yn is-gadeirydd y flwyddyn nesa. Trafodwyd penodi Cadeirydd ar gyfer 25/26. Cynigiwyd bod RD yn parhau am flwyddyn arall; cafodd hyn ei eilio ac fe'i derbyniwyd gan RD.

**4. Gohebiaeth**

- Llythyr yn gofyn am gyfraniad wedi'i dderbyn gan Glwb Cinio Henoed Llandisilio. Bydd JM yn anfon ffurflen cais am gymorth ariannol atyn nhw.
- Cais gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Beca yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn fodlon noddi'r wobr ar gyfer eu cwis ar 9/4/25. Cadarnhaodd y Cyng DP yr hoffai roi gwobr o £50. Mae FfJ wedi cytuno bod yn gwisfeistres ar y noson.
- Anfonwyd manylion hyfforddiant Un Llais Cymru at bawb ar gyfer y misoedd nesaf
- Cais gan rhanbarth Cymru o Forwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd - Elusen y Lluoedd Arfog am cyfraniad ariannol. Bydd JM yn anfon y ffurflen gais atyn nhw.
- Cais gan Marie Curie i gefnogi Apêl Fawr Cennin Pedr Marie Curie 2025. Bydd JM yn anfon y ffurflen gais atyn nhw.
- Cais gan Kids Cancer Research. Bydd JM yn anfon y ffurflen gais atyn nhw.
- Mae JM wedi rhannu adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gafodd ei gyhoeddi ar 5/3/25 yn dilyn eu hymchwiliad i gynghorau tref a chymuned, yn canolbwyntio ar eu rôl, llywodraethu, atebolrwydd, defnydd o dechnoleg, a'u heffaith ar gymunedau. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad hwn maes o law.

5. **Diweddariad cyllid ac arwyddo sieciau**

- Adroddodd JM bod mantolen banc 20/3/25 yn dangos £3,066.08 yn y cyfrif cyfredol.
- Mae rhai taliadau i'w gwneud o fewn y flwyddyn ariannol bresennol, sy'n gorffen diwedd mis Mawrth, sef taliadau am logi Caffi Beca o £100 (4 x cyfarfod Mawrth) a hefyd tâl y clerc am y chwarter olaf o £349.70. Cyfanswm o £449.70 a fydd yn gadael £2,616.38 ar ddiwedd blwyddyn.
- Mae rhai taliadau eraill i'w gwneud ond mae'r rhain yn perthyn i'r flwyddyn nesa, felly i'w talu ddechrau mis Ebrill.

- Arwyddo sieciau
  - Anfoneb Jamie King: pecyn rheoli'r wefan am y 3 mis nesa (Ebrill – Gorffennaf): £150.00
  - Anfoneb Un Llais Cymru am aelodaeth 2025/26: £149.00
  - Taliadau i Caffi Beca: cyfarfod Ionawr a Mawrth a 2 gyfarfod arall: 4 x £25 = £100
  - Anfoneb y Clerc ar gyfer y 4ydd chwarter Ionawr – Mawrth 2025: £349.70

6. **Cynllunio**

- Ni dderbyniwyd ceisiadau cynllunio ers y cyfarfod diwetha.

7. **Diweddariad y Cynghorydd Sir**

- Mae'r Cyngor Sir wedi glanhau'r cerrig mân rhydd oedd tu allan i'r ysgol.
- Bydd y Cyng DP yn dilyn lan ar y broblem carthbwll (sespit) sy'n gollwng yng Nglandy Cross.
- Adroddwyd bod bagiau bwyd yn cael eu gadael ar bwys Rhosnewydd a bod pentwr o deiars wedi'u gadael heibio Llyshelyg tuag at y groesffordd. Os ar dir preifat, ni ellir gwneud unrhyw beth am y mater.
- Mae'r tyllau ar y ffordd o Ffynnonwen i Login wedi cael eu trwsio.
- Mae'r darn o ffordd ar bwys Llysnewydd mewn cyflwr gwael.
- Mae'r toiled oedd ar yr ochr ar Feidr Siôn wedi diflannu.
- Neb wedi gweld unrhyw dipio anghyfreithlon yn Ynys Fach yn ddiweddar.
- Mae ymghynghoriad yn mynd ymlaen ar hyn o bryd ynghylch cefnogi lein y Cardi Bach. Mae croeso i'r cyhoedd anfon gair o gefnogaeth; mae'r wybodaeth ar wefan Cyngor Sir Gâr.

8. **Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Dim unrhyw faterion yn codi.

9. **Bioamrywiaeth**

- Dywedodd JM bod Vincent Wildlife Trust yn darparu 10 bocs ystlumod i'w gosod yn ardal llwybrau cyhoeddus y prosiect. Bydd y rhain ar gyfer yr ystlum barbastelle sy'n eithaf prin. Cafwyd caniatâd y perchnogion tir sef Twose, Harts a Summers. Bydd y bocsys yn cael eu gosod ar 27/3/25 ac mae croeso i wirfoddolwyr ymuno ym maes parcio Login am 10yb.

10. **Unrhyw Fater Arall**

- Cadarnhaodd JM bod grant Cymunedau Cynaliadwy 2025 wedi cael ei gyflwyno i adfer llwybrau cyhoeddus yn (i) Efailwen (o'r briffordd i Lwynyrebol), (ii) Maenhir lawr i'r gromlech a (iii) rhan o'r Landsker ar bwys Eglwys Cilymaenllwyd. Danfonwyd copi o'r cais at y Cynghorwyr. Cyfanswm y cais yw £35,632. Daeth 71 o lythyron o gefnogaeth i mewn gan unigolion, mudiadau a rhai busnesau. Cyhoeddir y grantiau llwyddiannus ym mis Mai.

- Fideo o'r prosiect Adfer Llwybrau Troed – cafodd ein prosiect Llwybrau Troed ei ddewis ymysg 7 o brosiectau eraill gan dîm Cronfa Ffyniant Gyffredinol Cyngor Sir Gâr, i fod yn rhan o fideo hyrwyddol i ddangos sut mae arian SPF wedi cael ei wario. Bydd y fideo hwn yn cael ei rannu ar wefan Cyngor Sir Gâr ac ar ei gyfryngau cymdeithasol. Daeth fideograffydd allan ar 25/2/25 i wneud fideo o'r llwybrau.
- Dywedodd RD ei fod e a chymydog wedi bod yn gwneud llawr o waith clirio coed ar ôl storm fawr mis Rhagfyr. Mae'r llwybrau yn glir unwaith eto oni bai am lwybr Pantyrodyn. Mae'r coed yn cael eu gosod ar yr ochr i hybu bioamrywiaeth.
- Protocol newydd y Cyngor: cytunwyd, o hyn ymlaen, y dylai pawb ddefnyddio'r 'reply all' mewn e-bost pan fyddan nhw'n ymateb i fater y Cyngor, er mwyn gallu cofnodi faint sydd o blaid neu yn erbyn unrhyw fater sydd angen penderfyniad neu gymeradwyaeth. Cytunwyd hefyd parhau â'r cyfarfodydd bob deufis ond os bydd mater brys yn codi, bod cyfarfod Zoom yn cael ei drefnu.
- Mynegwyd dymuniadau gorau i'r Caffi Beca newydd pan fydd yn agor.

11. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Cytunwyd cynnal y cyfarfod nesa ar Nos Fawrth 3ydd Mehefin gan fod 27ain Mai yn hanner tymor.

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.30pm*

Arwyddwyd

Cadeirydd: ....T R Davies.................... Dyddiad: ...3/6/2025....